Blas ac arogl dŵr yfed

Mae pob ffynhonnell ddŵr yn cynnwys nifer o fwynau naturiol fel calsiwm, magnesiwm a haearn. Bydd presenoldeb y mwynau hyn mewn dŵr yn creu blas gwahanol bydd pobl yn sylwi wrth ei yfed, yn arbennig wrth deithio i wahanol rannau o'r wlad. Bydd dŵr hefyd yn cynnwys nwyon fel ocsigen a charbon deuocsid sydd hefyd yn gallu effeithio'r blas. Yn absenoldeb yr elfennau hyn, byddai'r dŵr yn fflat a di-flas.

Bydd y rhan fwyaf o ddŵr rhanbarth Dŵr Cymru yn dod o gronfeydd ar yr ucheldiroedd, ond tynnir rhywfaint o ddŵr o afonydd a ffynonellau dŵr daear. Trinnir pob ffynhonnell yn unol â'r gofynion er cynnal safonau ansawdd dŵr yfed.

Blasau ac aroglau gwahanol

Mae'r adrannau isod yn disgrifio'r achosion cyffredin o wahanol flasau ac aroglau ar gyflenwadau dŵr yfed. Os bydd unrhyw gwsmer Dŵr Cymru yn poeni am flas neu arogl dŵr tap dylent gysylltu â ni.

Clorin

Ychwanegir clorin at ddŵr yfed yn ystod cymalau olaf y driniaeth er mwyn lladd germau niweidiol a allai fod yn bresennol. Bydd rhywfaint o glorin yn parhau yn y dŵr wrth ei gludo i dapiau cwsmeriaid er mwyn cynnal ei ansawdd. Cedwir lefelau clorin dŵr yfed o fewn y terfynau argymelledig. Bydd cwsmeriaid yn byw yn agos at waith trin dŵr neu orsaf uchafu clorin yn derbyn dŵr yfed yn cynnwys ychydig mwy o glorin na rhai ar gyrion y rhwydwaith dosbarthu. Y rheswm yw bod y lefelau'n gostwng wrth i'r dŵr basio drwy'r pibellau.

Gall crynodiadau clorin amrywio rhywfaint yn ystod y dydd os bydd galw cynyddol yn arwain at ddŵr yn teithio'n gyflymach drwy'r system. Bydd newidiadau i dymheredd y dŵr hefyd yn effeithio lefelau clorin, gyda'r crynodiad yn uwch yn y gaeaf. Yn achlysurol, cynyddir crynodiadau clorin mewn ymateb i anghenion gweithredol. Byddwn yn monitro lefelau clorin a ychwanegir at ddŵr yfed 24 awr y dydd.

Ni fydd clorin mewn dŵr yfed yn risg i iechyd y cyhoedd. Fodd bynnag, bydd rhai pobl yn fwy sensitif i flas ac arogl clorin nag eraill. Bryd hynny bydd llenwi blwch, gosod clawr a'i roi mewn oergell yn gostwng blas y clorin. Dylid gwaredu unrhyw ddŵr na ddefnyddir o fewn 24 awr. Ni fydd blas clorin neu fetel ar ddiodydd poeth, yn arbennig te, yn debyg o ddeilio o bresenoldeb clorin. Bydd yn fwy tebyg o fod yn gysylltiedig â phibellau mewnol y cwsmer.

Blas llwyd neu briddlyd

Bydd dŵr yn pasio drwy dir mawnog yn gallu datblygu blas neu arogl llwyd neu briddlyd. Addasir triniaethau yn yr ardaloedd hynny gan ddefnyddio carbon actifedig i waredu'r deunydd organig sy'n achosi'r blasau hyn.

Bydd llawer o fathau o alga a bacteria mewn llynnoedd, cronfeydd ac afonydd yn cynhyrchu'r sylweddau sy'n creu blasau fel hyn yn naturiol. Byddant yn fwy amlwg ar ôl cyfnodau cynnes a sych estynedig. Yn ogystal, gall rhai o'r organebau hyn dyfu tu fewn tapiau gan achosi problemau tebyg.

Blas ac arogl TCP

Yn achlysurol, bydd cwsmeriaid yn cysylltu â ni i ddweud fod blas gwael ar eu dŵr tap, yn debyg i TCP, moddion, metel neu rywbeth chwerw. Weithiau bydd hynny ond mewn diodydd poeth, neu pan fydd gwydr dŵr wedi sefyll am amser.

Gellir achosi'r blasau ac aroglau hyn wrth i'r clorin adweithio gyda chyfrannau plastig neu rwber mewn offer megis tegellau, tapiau a phibellau'n cysylltu peiriannau â'r cyflenwad dŵr.

Mae taclo'r broblem yn hawdd:

- Problem gyda thegell - paratoi diod boeth gyda dŵr mewn sosban a chymharu'r blas gyda diod o'r tegell
- Problem gyda phibellau offer - datgysylltu'r bibell a blasu'r dŵr eto. Os bydd hynny'n datrys y broblem, gosod falf unffordd ar y pen ble mae'r bibell yn cysylltu â'r cyflenwad. Cofiwch ddefnyddio pibellau plastig a thapiau wedi'u cymeradwyo gan WRAS (Water Regulations Advisory Service). Bydd eich plymwr yn gallu cadarnhau hynny.

Rwber & plastig

Bydd rhai deunyddiau plymwr sy'n dod i gysylltiad â chyflenwadau dŵr cartrefi, swyddfeydd a ffatrïoedd yn gallu creu blas ac arogl annymunol. Er enghraifft, pan fydd dŵr yn sefyll mewn pibellau, gall sylweddau drosglwyddo i'r dŵr. Mae pibellau plastig a rwber a ddefnyddir i lenwi tanciau dŵr yfed neu offer gwerthu diodydd, a phibellau peiriannau golchi'n gallu trosglwyddo'u blas i'r dŵr. Os oes peiriant golchi dillad neu lestri sy'n cysylltu â phibellau o dan y sinc, trïwch gau'r falfiau i weld os bydd y broblem yn parhau.

Blas chwerw

Gellir achosi blas metel neu chwerw gan bibellau galfanedig, copr neu haearn. Os bydd dŵr wedi sefyll mewn pibell am sawl awr, llenwch badell golchi llestri gyda'r dŵr a thynnu dŵr ffres drwy'r bibell. Dyfriwch yr ardd gyda'r dŵr yn y badell. Yn achlysurol, bydd gwydrau a chwpanau wedi'u golchi mewn peiriant yn cynnwys olion glanedyddion. Gallwch brofi hynny wrth rinsio gwydr neu gwpan gyda dŵr tap a gweld os yw'r blas yn parhau. Os yw, gallech newid gosodiadau'r peiriant ac osgoi defnyddio mwy na'r lefelau glanedyddion argymelledig.

Petrol & disel

Os bydd blas petrol neu ddisel ar ddŵr tap y gegin, cysylltwch â llinell gymorth Dŵr Cymru. Yn achlysurol, bydd cwsmeriaid yn gollwng petrol neu olew ar lwybrau a gerddi ac os bydd pibell wasanaeth blastig yn yr ardal gall effeithio blas y dŵr. Os yn datgelu blas tebyg, peidiwch ag yfed na choginio gyda'r dŵr tan i arolygwyr Dŵr Cymru ymweld i archwilio'r broblem.

Gwybodaeth bellach?

Galwch ein llinell gymorth **0800 052 0130**.

Un o'n rheoleiddwyr, yr Arolygaeth Dŵr Yfed, sy'n gyfrifol am gynnal safonau uchel cyflenwadau dŵr cyhoeddus.
Gwefan: **www.dwi.gov.uk**